

Papur trafod: strwythurau ar gyfer gweithredu strategaeth Cymraeg 2050

Pwrpas y papur

1. Pwrpas y papur hwn yw ysgogi trafodaeth ynghylch y strwythurau mwyaf addas ar gyfer gweithredu strategaeth Cymraeg 2050 yn sgil y penderfyniad diweddar i beidio bwrw ymlaen i gyflwyno Bil y Gymraeg.

Cyd-destun: strategaeth Cymraeg 2050

2. Roedd cyhoeddi Cymraeg 2050 ym mis Gorffennaf 2017 yn newid sylweddol i bolisi iaith Llywodraeth Cymru. Mae natur hir-dymor y strategaeth, yr uchelgais sydd y tu ôl i'r targed a'r her y mae'n ei gyflwyno, yn rhoi cyfle newydd i sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y Gymraeg, a gwaith o hybu'r Gymraeg, yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar draws Cymru. Er mwyn cyrraedd y targed, bydd angen perswadio cyfran llawer ehangach o'r boblogaeth i gaffael, trosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn o ddefnyddio'r iaith, siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r Gymraeg ac, yn allweddol, yr 80 y cant o'r boblogaeth nad ydynt yn cysidro ei hunain fel siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol sydd heb eu geni eto.
3. Er mai prif bennawd y strategaeth yw'r targed o filiwn i siaradwyr erbyn 2050, mae'r strategaeth yn glir: rhaid barnu ei lwyddiant yn nhermau lefelau'r defnydd o'r Gymraeg. Byddai ffocws rhy gul ar gyrraedd miliwn o siaradwyr sy'n gallu siarad y Gymraeg, heb roi digon o sylw i'r cyfleoedd a'r cyd-destunau lle gall y miliwn ddefnyddio'r iaith yn y eu bywydau bob dydd, yn annigonol ac yn annhebygol o roi sail gadarn i ddyfodol yr iaith. Mae profiad Iwerddon, lle mae 1.7 miliwn o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad y Wyddeleg, ond dim ond 87,000 yn adrodd eu bod yn ei siarad yn feunyddiol, yn brawf o'r peryg yn hyn o beth. Dyna pam fod yna ail darged yn Cymraeg 2050 sy'n ymwneud â defnydd y Gymraeg:

Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

4. Mae prif naratif y strategaeth yn rhoi pwyslais, felly, ar y berthynas agos rhwng caffael iaith ac ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar y naill law, ac ymdrechion i wreiddio arferion iaith a chynyddu ei defnydd ar y llaw arall. Er mwyn rhoi cyd-destunau i alluogi hynny i ddigwydd, mae hefyd angen creu amodau ffafriol: boed hynny'n adnoddau ieithyddol, seilwaith economaidd neu gefnogaeth gyhoeddus.

Y sefyllfa gyfredol

5. Mae targedau'r strategaeth yn fwriadol uchelgeisiol er mwyn creu momentwm ar gyfer gweithio tuag at y nod cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*. Mae'r dyhead i ehangu yn sylweddol y niferoedd sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn galw am shifft mewn meddylfryd ac adnoddau er mwyn cyrraedd cydbwysedd gwell rhwng:
 - a. rheoleiddio er mwyn rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg presennol;
 - b. rhoi cymorth ymarferol ac anogaeth i gyrff a reoleiddir i dyfu eu cynulleidfa o ran defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg;
 - c. cynllunio systematig er mwyn tyfu'r niferoedd sy'n caffael y Gymraeg; a
 - d. rhaglen o waith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y teulu, yn gymdeithasol ac mewn gweithleoedd; a
 - e. gweithio ar draws y Llywodraeth i sicrhau fod polisiau ym meysydd datblygu economaidd, tai, cynllunio, addysg, diwylliant ayyb yn cefnogi gweledigaeth ac amcanion y strategaeth.
6. Ar 1 Chwefror 2019 cyhoeddodd y Gweinidog ei phenderfyniad i beidio cyflwyno Bil y Gymraeg. Deilliodd y cynigion ar gyfer y Bil o'r Papur Gwyn, *Taro'r Cydbwysedd Iawn*. Yn y papur hwnnw mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y pwyslais polisi wedi symud yn rhy bell i gyfeiriad rheoleiddio ar draul gwaith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Gwnaed cynigion yn y Papur Gwyn i symleiddio'r system Safonau a chryfhau'r trefniadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu Comisiwn fel corff corfforaethol i ddisodli swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fel corfforaeth undyn.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn glynu wrth y dadansoddiad hwn ac am weld gwell cydbwysedd rhwng y gweithgareddau a restrir ym mharagraff 5 uchod. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu peidio a deddfu gan nad oedd unfrydedd ymhlith rhanddeiliaid mai'r cynigion yn y Papur Gwyn i greu Comisiwn yn lle'r Comisiynydd fyddai'r ffordd orau o wireddu'r amcanion hynny. Er na fyddwn yn parhau â'r cynlluniau i ddeddfu, mae'r amcanion hyn yn dal i fod yn rhai y dymunwn eu gwireddu. Rhaid felly dod o hyd i ffyrdd eraill o'u cyflawni oddi fewn i'r gyfundrefn ddeddfwriaethol presennol, Mesur y Gymraeg 2011.
8. Rhan annatod o gyfundrefn Mesur 2011 yw swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae Aled Roberts wedi yn cychwyn yn ei swydd fel y Comisiynydd newydd ers 1 Ebrill. Rydym eisoes wedi cychwyn trafodaethau gyda'r Comisiynydd ynghylch datblygu perthynas weithio wahanol a mwy effeithiol rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd (gan barchu annibyniaeth y Comisiynydd o ran ei rôl rheoleiddio).

Sgôp y papur hwn

9. Rydym yn awyddus i ystyried yn ofalus beth ddylai cyfrifoldebau gwahanol actorion fod er mwyn sicrhau ein bod gennym strwythurau addas i weithredu strategaeth Cymraeg 2050. Mae'r papur hwn yn trafod opsiynau ynghylch sut orau i wneud hynny, a'r manteision ac anfanteision pob opsiwn. Mae'n cynnwys cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.
10. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau dros sefydlu corff neu asiantaeth newydd i hybu'r Gymraeg. Mae'r Gweinidog eisoes wedi ei gwneud hi'n eglur wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a'r Gymraeg y byddai corff ychwanegol sy'n gweithredu ym maes hybu'r Gymraeg yn creu dryswch i'r cyhoedd gyda risg uchel o ddyblygu swyddogaethau. Byddai hefyd yn creu costau a gorbenion ychwanegol, gan dynnu arian prin o raglenni a gwasanaethau byddai o fudd uniongyrchol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Gan hynny, nid yw creu corff allanol newydd o fewn sgôp y papur hwn.
11. Mae'r papur yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu corff mewnol hyd-braich oddi fewn i Lywodraeth Cymru.

Cynllunio ieithyddol: egwyddorion

12. Tra'n cau'r drws ar greu corff allanol newydd, mae'n werth ystyried y dadleuon a gyflwynwyd gan y rheini oedd am weld sefydlu corff allanol. Dywedodd rhai rhanddeiliaid a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor mai'r elfennau coll o'r tirwedd polisi iaith oedd ymyraethau sydd wedi eu gwreiddio mewn egwyddorion cynllunio ieithyddol er mwyn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol o ddefnydd iaith yn y gymdeithas. Eu dadl oedd bod gormod o ffocws wedi bod ar hawliau a darparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddinasyddion yn y blynyddoedd diweddar – a hynny ar draul ymdrechion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, ac ar draul ymdrechion i gynnal cymunedau, rhwydweithiau a gofodau lle defnyddir y Gymraeg fel iaith diofyn.
13. Er mwyn rhoi'r cyd-destun i'r dadleuon hynny, mae'r adran hon yn rhoi gorolwg eang i gynllunio ieithyddol fel gwyddor gymdeithasol a sut y mae wedi cael ei roi ar waith yng Nghymru dros y chwarter canrif diwethaf.
14. Ers y 1970au mae sawl ymgais wedi'i wneud i ddatblygu modelau ar gyfer adfywio iaith a sbarduno newid ieithyddol. Mae damcaniaeth Joshua Fishman, *Reversing Language Shift* (RLS) 1991 a'r GIDS (*Graded Intergenerational Disruption Scale*) yn dangos sut y ceisiwyd ystyried ymdrechion i adfywio iaith fel cyfres o gyfnodau rhyngddibynnol a chronnol (gweler hefyd Fishman 2001). Aethpwyd ati, wedi hynny, i fireinio model

Fishman, ac arweiniodd hynny at ffyrdd eraill o ddangos deinameg ymddygiad ieithyddol a newid ieithyddol. Yn olwyn Miquel Strubell gwelir perthynas rhwng pedwar maes:

- Gallu ieithyddol
- Y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith
- Y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr iaith a'r galw amdanynt
- Y cymhelliant i ddysgu'r iaith a'i defnyddio

15. Dangosir y berthynas rhyngddynt ar ffurf cylch, yn hytrach na llinell (Strubell 2001).

Wrth i fwy o bobl ddod yn fwy rhugl yn yr iaith, bydd y defnydd o'r iaith mewn cylchoedd cymdeithasol yn cynyddu. Bydd hynny, yn ei dro, yn cynyddu'r galw am ddefnyddio'r iaith. Drwy roi mwy o amlygrwydd i'r iaith yn gyhoeddus, gellir cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad unigolion o ddefnyddioldeb yr iaith ac ar eu cymhelliant i'w dysgu.

16. Bu ymdrechion eraill hefyd i ddangos nad ar ffurf llinell syth y mae ymddygiad ieithyddol a newid ieithyddol yn digwydd, a gwelwyd, yn sgil y rheini, bod angen am fodel o fwy nag un dimensiwn. Ceir datblygiad pellach ar fodel Fishman yn *Policy-to-outcome Path* Grin & Moring (2002). Yn hwnnw, ystyrir bod angen cyfuniad o dair amod i sicrhau bywiogrwydd ieithyddol:

- y gallu i ddefnyddio'r iaith;
- y cyfleoedd i'w defnyddio; a'r
- awydd i'w defnyddio.

17. Un elfen allweddol ym mhob un o'r modelau uchod yw seicoleg ymddygiad ieithyddol. I bob golwg, mae ymwybyddiaeth gyffredinol bod ffactorau sy'n ymwneud ag agweddau, o ran parodrwydd neu gyndynrwydd siaradwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, yn bwysig. Serch hynny, mae angen dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n sbarduno dewisiadau ieithyddol.

18. Mae fframwaith gysyniadol strategaeth *Cymraeg 2050* yn cyfleu syniadaeth mwy diweddar ynghylch cynllunio ieithyddol, sef y berthynas rhwng defnydd iaith a newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ehangach sy'n siapio, ac a fydd yn parhau i siapio'r Gymru gyfoes.

19. Mae fframwaith gysyniadol strategaeth *Cymraeg 2050* hefyd yn cyflwyno cysyniad y 'dull cwrs bywyd' i gynllunio ieithyddol. Er bod modelau dull cwrs bywyd wedi cael eu cysylltu'n bennaf a meysydd sy'n ymwneud ag iechyd cyhoeddus, heneiddio a deilliannau cymdeithasol-economaidd, mewn sawl ffordd mae'r cysyniadau sy'n sail i'r

damcaniaethau hyn yn berthnasol i'r maes polisi cynllunio ieithyddol. Mae'r elfennau canlynol o fodelau dull cwrs bywyd yn arbennig o berthnasol:


- dylanwad cyd-destun hanesyddol a daearyddol ar brofiadau a chyfleoedd pobl
- nodi 'cyfnodau pontio' allweddol
- cydnabod amrywiaethau yn y modd mae gwahanol unigolion yn ymateb i amgylchiadau
- y berthynas rhwng unigolion a'u teuluoedd a'u rhwydweithiau o berthnasau
- sut mae'r gorffennol yn llywio'r dyfodol, h.y. persbectif tymor hir ac effaith gronnol profiadau
- unigolion fel chwaraewyr gweithredol sy'n gallu gwneud y penderfyniadau a dewisiadau, a gosod amcanion ar gyfer camau y maent yn mynd i'w cymryd.

O'r theori i'r gweithredu

20. Er mwyn llwyddo i weithredu *Cymraeg 2050* ein tasg yw troi'r theori yn weithredu pendant. Dilyd pwysleisio fodd bynnag nad ydym ar gychwyn y daith. Mae cydnabyddiaeth o'r gyd-ddibyniaeth rhwng amrywiaeth o wahanol ffactorau wedi bod yn nodwedd o weithgaredd cynllunio ieithyddol yng Nghymru ers degawdau. Er enghraifft, datblygodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg weithgaredd cynllunio ieithyddol yn y 90au oedd yn gyfanwaith o:

- **Cynllunio caffael yr iaith:** hybu trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd; cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg; cynllunio darpariaeth Cymraeg i oedolion.
- **Cynllunio defnydd yr iaith:** defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg; defnydd gan bobl ifanc; cyfleoedd a gofodau cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- **Cynllunio statws yr iaith:** statws swyddogol gyfreithiol; darparu gwasanaethau (drwy orfodaeth/rheoleiddio neu yn wirfoddol drwy anogaeth).
- **Cynllunio corpws:** terminoleg; geiriaduron; technoleg.

21. Mae gweithgaredd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Gymraeg yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd wedi eu seilio ar yr egwyddorion hyn. Cafodd strategaeth *Cymraeg 2050* ei datblygu o fewn fframwaith gysyniadol sydd wedi ei seilio ar gynllunio ieithyddol – ac mae'r dair thema yn y strategaeth a nodir yn y diagram isod yn cyfleu'r rhyngberthynas rhwng y gwahanol agweddau o gynllunio ieithyddol.



22. Un o'r manteision sydd wedi bod ers i'r Llywodraeth fod yn arwain ar gynllunio ieithyddol yn y blynyddoedd diweddar yw ein bod wedi gallu gweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth i sicrhau fod egwyddorion cynllunio ieithyddol wedi ei gynnwys mewn meysydd polisi eraill. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd mewn modd systematig a strategol. Dyna un o'r rhesymau pam ein bod yn ystyried beth yw'r strwythurau mwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r strategaeth.
23. Mae'n bosibl fod beirniadaeth rhai rhanddeiliaid o'r Llywodraeth ynghylch rhoi egwyddorion cynllunio ieithyddol ar waith yn gysylltiedig â diffyg gweladwyedd rhai prosiectau o'i gymharu a cyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Efallai nad yw hynny'n syndod gan taw un mater ymysg nifer o flaenoriaethau yw'r Gymraeg i'r Llywodraeth. Gall hefyd adlewyrchu'r ffaith fod sylw ac amser swyddogion wedi cael ei ddargyfeirio i dasgau yn ymwneud a pheirianwaith y Llywodraeth, gyda llai o amser yn cael ei neilltuo i ddatblygu polisi. Mae budd felly i ni ystyried sut y gallwn greu strwythur sy'n golygu bod cyfran uwch o amser ac egni swyddogion yn cael ei roi i gynllunio ieithyddol.

Pwy sy'n gwneud beth yn y strwythur gyfredol

24. Mae gan Lywodraeth Cymru rai cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg, cyfrifoldebau na all unrhyw un ond llywodraeth genedlaethol eu hysgwyo. Dyma nhw:

- paratoi strategaeth genedlaethol o dan a78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chynllun i weithredu'r strategaeth;
- gosod polisiau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg;
- cynnig a chreu deddfwriaeth, gyda chydysyniad y Cynulliad (yn Rhan 3, byddwn yn cynnig bod gosod Safonau ar gyrff hefyd yn gyfrifoldeb i'r Llywodraeth);
- sefydlu trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol;
- darparu adnoddau i gefnogi'r Gymraeg;
- monitro perfformiad cyrff sy'n helpu i weithredu'r strategaeth, ac adolygu'r strategaeth o bryd i'w gilydd;
- cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol â gwledydd ac ardaloedd eraill sydd â phryderon o ran eu hieithoedd lleiafrifol;
- bod yn atebol i'r Cynulliad.

25. Mae Llywodraeth Cymru hefyd ar hyn o bryd yn cynnal rhaglen o waith sydd â'r nod o gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gymuned drwy arian grant, gan fusnesau, o fewn teuluoedd a gan blant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn gyfrifol am rai agweddau o seilwaith ieithyddol megis technoleg iaith a chorpws, ac hefyd yn ariannu Mudiad Meithrin a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

26. Prif gyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg yw:

- Ymgynghori ar baratoi Safonau ar gyfer gwahanol sectorau a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru;
- Gosod Safonau ar gyrff ar ôl cael ei awdurdodi i wneud hynny gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;
- Monitro cydymffurfiaeth â Safonau a delio â chwynion;
- Delio â chwynion ynghylch y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Annog busnesau mawr a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau Cymraeg;
- Enwau llefydd a safoni termau;
- Paratoi adroddiad 5-mlynedd ar y Gymraeg;
- Arsyllfa bolisi – ymateb i ymgynghoriadau ayyb.

Opsiynau ar gyfer trefniadau gweithredu yn y dyfodol

27. Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu'n fras rhai o'r opsiynau sydd ar gael i ni ar gyfer sicrhau gwell cydbwysedd o ran cyfrifoldebau fel y soniwyd ym mharagraff 5. Mae'r opsiynau hyn yn seiliedig ar drafodaethau ac adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan grwpiau lobïo, a hefyd trafodaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mewn adrannau eraill sydd â phrofiad o sefydlu endidau o fewn y Llywodraeth, fel Cadw a Cymru Greadigol. Mae trafodaethau pellach ar y gweill gyda Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol,

Croeso Cymru a Busnes Cymru er mwyn gwerthuso manteision ac anfanteision modelau llywodraethu gwahanol.

Newid ffocws y Comisiynydd

28. Waeth beth yw'r opsiynau eraill a drafodir yn y papur hwn, byddwn yn disgwyl i'r Comisiynydd o leiaf newid ei ffocws o fod yn rheoleiddiwr sy'n ymateb i gwynion ynghylch methiannau i ddarparu gwasanaethau, i sefydliad sy'n mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi cyrff sy'n darparu, neu'n dymuno darparu gwasanaethau Cymraeg.
29. Mae'r Gweinidog eisoes wedi datgan mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ei bod yn disgwyl i'r Comisiynydd fuddsoddi mewn gweithgareddau i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg er mwyn cefnogi'r ymdrechion gan y cyrff eu hunain, p'un a ydynt yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau ai peidio, a hefyd adrodd ar lwyddiant y gweithgareddau hyn yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd.
30. Cynhelir trafodaethau â swyddfa'r Comisiynydd hefyd ynghylch mabwysiadu polisi unioni cynnar ar gyfer cwynion, gan gynnwys gofyn i achwynwyr godi cwynion gyda'r corff perthnasol yn gyntaf.

Cyfrifoldebau ychwanegol i'r Comisiynydd?

31. Dywedwyd ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor pe bai'r swyddfa'r Comisiynydd yn newid ei ffocws fel y nodwyd uchod ac yn gwneud newidiadau i'w drefniadau llywodraethu, y byddai'r Llywodraeth yn ystyried wedyn a ddylid trosglwyddo cyfrifoldebau pellach i'r Comisiynydd.
32. Er enghraifft, un cyfrifoldeb y gellid ei drosglwyddo i'r Comisiynydd yw'r cyfrifoldeb am ariannu'r mentrau iaith, o ystyried eu bod yn asiant darparu allweddol ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol gan ddarparu gwasanaethau ar eu rhan a gweithio fel partner wrth weithredu strategaethau sirol ar gyfer y Gymraeg: sy'n un o ofynion y Safonau Hyrwyddo a orfodir ar bob cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol ac awdurdod parc cenedlaethol.
33. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd y byddai'n well i asiantaeth neu gorff mewnol hyd braich ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu mentrau iaith a sefydliadau trydydd sector eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg (gweler opsiynau pellach isod).

Opsiwn 1 – Man-newidiadau i gyfrifoldebau o fewn Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru

Amlinelliad

- Is-adran y Gymraeg i sefydlu gweithdrefnau newydd ar gyfer noddi'r Comisiynydd gyda'r nod fod y Comisiynydd yn newid pwyslais wrth weithredu ei swyddogaethau rheoleiddio.
- Mentrau Iaith Cymru i fod yn gyfrifol am ddyrannu grantiau'r 22 menter, papurau bro, Merched y Wawr, Ffermwyr Ifanc, Eisteddfodau bach ayyb
- Is-adran y Gymraeg i barhau i noddi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr Urdd, Mudiad Meithrin, yr Eisteddfod Genedlaethol a Mentrau Iaith Cymru.

Manteision

- Ysgafnhau biwrocratiaeth gweinyddu grantiau bach cymunedol o du'r Llywodraeth.
- Rhyddhau adnoddau Is-adran y Gymraeg i brif-ffrydio'r Gymraeg o fewn y Llywodraeth
- Rhoi eglurder i'r partneriaid mawr cenedlaethol.

Anfanteision

- Yn ymddangosiadol, nid yw'n ymateb i'r dyheadau allanol o greu endid hyd braich.
- Rhoi'r cyfrifoldeb am grantiau'r mentrau i MIC yn newid ei swyddogaeth – a gallai hynny greu ansicrwydd i'r mentrau.
- Diffyg capasiti gan MIC i weinyddu'r grantiau – byddai angen adnoddau ychwanegol ar MIC.

Opsiwn 2 – Sefydlu Corff Cynllunio Ieithyddol (CCI) o fewn Llywodraeth Cymru

34. Newid mwy sylweddol sydd wedi cael ei gynnig gan rhai lobïwyr fyddai yn creu endid newydd oddi fewn i Lywodraeth Cymru i roi ffocws gwell i gynllunio ieithyddol fel elfen greiddiol o'n gwaith i weithredu'r strategaeth. Byddai endid o'r fath, gan ddibynnu ar y model llywodraethiant yn asiantaeth neu'n is-adran arall o fewn y Llywodraeth, yn ychwanegol i Is-adran y Gymraeg a fyddai'n parhau i arwain ar fusnes llywodraethol, ariannu a nawdd, strategaeth a chysylltiadau allanol.

Amlinelliad

- (i) I weithredu o fewn Llywodraeth ond yn hyd-braich o fusnes dyddiol y Llywodraeth, gyda ffocws clir ar weithredu strategaeth *Cymraeg 2050*.
- (ii) Endid wedi ei frandio sy'n hygyrch i randdeiliaid allanol (yn debyg i Busnes Cymru neu Croeso Cymru)

- (iii) Wedi ei staffio gan weithwyr proffesiynol gyda chefnidir mewn cynllunio ieithyddol (ac a fyddai yn weision sifil)
- (iv) Rhoi cyngor awdurdodol, proffesiynol i Weinidogion a gweision sifil ar draws Llywodraeth Cymru
- (v) Corff arloesol fyddai'n cofleidio cyd-weithio a cyd-greu, ac a fyddai'n creu partneriaethau o fewn y Llywodraeth ac yn allanol
- (vi) Ffocws ar fod yn gatalydd sy'n dylanwadu ac yn ysbrydoli eraill i weithredu er lles y Gymraeg
- (vii) Ffocws ar dystiolaeth, ymchwil, data a gwerthuso gyda ffocws clir ar dueddiadau'r dyfodol
- (viii) Datblygu rhaglen hi-dymor ar gyfer y Gymraeg yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae siaradwyr yn defnyddio'r iaith yng nghyd-destun sut y maent yn ymwneud ac yn perthnasu a'u gilydd.

Manteision

35. Credwn y byddai'r math yma o endid yn debygol o gael ei groesawu gan nifer o'r rhanddeiliaid a fu'n cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor o'r angen am ffocws newydd ar gynllunio ieithyddol.

Anfanteision

36. Fel y soniwyd eisoes, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru sydd a phrofiad o sefydlu a gweithio mewn endidau o fewn y Llywodraeth megis Cadw a Chymru Greadigol. Mae model Cadw fel asiantaeth weithredol yn un unigryw o ystyried ei faint, ei swyddogaethau a'r ffaith ei fod yn cynhyrchu incwm.
37. Ein barn ni fel swyddogion yw nad oes angen model o'r math hynny er mwyn ymgymryd a'r mathau o swyddogaethau cynllunio ieithyddol a ragwelir. Byddai'r proses o gael cytundeb ac yna sefydlu asiantaeth yn un a fyddai'n cymryd amser ac adnoddau – ac y byddai hefyd yn debygol o fod angen adnoddau ychwanegol i'w redeg.
38. Credwn hefyd y byddai risg o greu endid ar wahân i Is-adran y Gymraeg o safbwynt eglurder rolau – yn fewnol ac yn allanol.

Opsiwn 3 – Sefydlu Uned Gynllunio Ieithyddol o fewn Is-adran y Gymraeg

39. Opsiwn hybrid fyddai sefydlu Uned Gynllunio Ieithyddol o fewn Is-adran y Gymraeg. Fe fyddai hyn yn cynnwys sicrhau fod pobl ac arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol yn rhan o'r uned gynllunio. Y prif wahaniaeth rhwng yr opsiwn hwn a opsiwn 2 yw y byddai pennaeth yr Uned yn adrodd i bennaeth Is-adran y Gymraeg. Byddai modd ei sefydlu mewn cyfnod weddol fyr, ac o fewn cyllidebau presennol.

Amlinelliad

40. **Byddai pwyntiau (iii) i (viii) yn Opsiwn 2 yn berthnasol i'r opsiwn hwn** – gan gynnwys y ffaith y bydd yr uned wedi ei staffio gan weithwyr proffesiynol gyda phrofiad o gynllunio ieithyddol.
41. O ran cyfrifoldebau polisi, gallai'r Uned arwain ar:
- **Cynllunio ieithyddol gofodol:** Cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu eu strategaethau iaith lleol; datblygu economaidd/Arfor; mentrau iaith; Cynlluniau y Gymraeg mewn Addysg.
 - **Trosglwyddo iaith mewn teuluoedd**
 - **Defnydd iaith gan fusnesau** (cynllun Cymraeg Byd Busnes)
 - **Defnydd iaith gan blant a phobl ifanc** gan gynnwys y siarter iaith
 - **Technoleg iaith a chorpws.**
 - **Datblygu capasiti cynllunio ieithyddol a dealltwriaeth o ddwyieithrwydd**
 - **Marchnata a chyfathrebu**
 - **Ymchwil, data a gwerthuso**
42. O ran atebolrwydd, byddai'r Uned yn ateb i Ddirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg, sef pennaeth Is-adran y Gymraeg.
43. Byddai modd i'r Uned gynnwll grwpiau allanol o arbenigwyr cynllunio ieithyddol ac hefyd fynychu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i gyflwyno a thrafod ar agweddau penodol o'r rhaglen waith.

Manteision

44. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi ffocws newydd a chlir i gynllunio ieithyddol oddi fewn i Is-adran y Gymraeg. Byddai hefyd yn rhoi eglurder ynghylch atebolrwydd, a gellid ei sefydlu mewn cyfnod cymharol fyr.
45. Byddai her allanol i waith yr Uned yn dod o du'r Cyngor Partneriaeth, gan rhoi cyfle i'r Cyngor graffu a chynghori ar gynigion polisi yn seiliedig ar dystiolaeth ac arbenigedd cynllunio ieithyddol.

Anfanteision

46. Mae'n bosib fodd bynnag na fyddai rhanddeiliaid sydd am weld endid neu asiantaeth yn gweld hyn fel opsiwn fyddai'n cwrdd yn llawn a'u dyheadau. Fodd bynnag, credwn mai rhan o'r her fyddai gallu cyfathrebu yn well i randdeiliaid allanol beth yw rhaglen waith yr Uned fel bod ganddynt hyder yn y gwaith a gaiff ei wneud. Byddai rhoi swyddogaethau marchnata, cyfathrebu, ymchwil, data a gwerthuso oddi fewn i'r Uned

ynghyd a swyddogion polisi sydd a phrofiad o gynllunio ieithyddol yn bwysig yn hyn o beth.